Menter Moch Cymru

Developing the pig sector in Wales
Datblygu'r sector moch yng Nghymru

# Cymorth Menter Moch Cymru yn rhoi hyder i fferm arallgyfeirio i gadw moch



**"Mae Menter Moch Cymru bob amser ar ben y ffôn pan fydd angen help arnom ac os nad ydyn nhw'n gallu helpu, maen nhw'n adnabod rhywun sy'n gallu."**

Mae Menter Moch Cymru wedi bod yn gatalydd i fenter newydd i besgi 1000 o foch yn Sir Benfro.

Dywed Aled Thomas na fyddai ei deulu'n debygol o fod wedi arallgyfeirio i gynhyrchu moch heb gyngor, arweiniad a chefnogaeth Menter Moch Cymru, sy'n darparu hyfforddiant, cymorth ac adnoddau gwybodaeth am ddim i rai sy'n cadw moch yng Nghymru.

**"Dw i ddim yn meddwl y bydden ni wedi mentro heb Menter Moch Cymru oherwydd byddai wedi bod yn ormod,"** cyfaddefa Aled, sy'n ffermio'r 120 hectar ar ei fferm gymysg gyda'i dad, Ken, a'i frawd hŷn, Rhydian.

Yr hyn y maent wedi'i greu yw'r busnes pesgi moch masnachol mwyaf yn Sir Benfro.

Dechreuodd y fenter am fod Aled a Rhydian eisiau ffermio ond oherwydd maint y busnes presennol, gyda gwartheg sugno, tir âr a thatws, doedd hynny'n ddim yn bosibl.

Roedd Aled wedi cael gwybodaeth am ffermio moch wrth astudio ar gyfer ei radd mewn amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Harper Adams ac roedd y teulu wedi trafod hyn fel opsiwn ar gyfer ehangu.

Aethant i ddigwyddiad ar sefydlu menter moch a gynhaliwyd gan Menter Moch Cymru yn Sir Benfro.

**"Doedden ni ddim eisiau mynd i gadw moch heb y wybodaeth bwysig, i adeiladu sied heb wybod sut i wneud, felly aethon ni draw i'r digwyddiad,"** mae Aled yn cofio.

**"Fe wnaeth y cyfarfod hwnnw ein hysbrydoli ni'n fawr a gwneud i ni fod eisiau edrych ar y syniad yn fanylach."**

Daeth cynghorydd o Menter Moch Cymru draw i'w fferm, Hill Leys, ym Mhorth Portfield, ger Hwlffordd.

**"Treuliodd amser hir ar y fferm a'n rhoi ar y trywydd cywir - at yr unigolion hynny oedd yn gallu trafod cysylltiadau, syniadau dylunio sied, gwaith costio, y peryglon i'w hosgoi, a manylion am y diwydiant nad oeddech efallai'n ymwybodol ohonynt fel rhywun o'r tu allan, a threfnodd i ni fynd i weld unedau oedd wedi'u codi,"** esbonia Aled.

Buddsoddodd y teulu £220,000 mewn adeilad oedd â lle i gadw 1,000 o foch mewn system yn seiliedig ar wellt, gyda'r moch ar gyfartaledd yn 35kg gan eu pesgi i bwysau byw o tua 110kg.

Daeth y moch cyntaf yma ym mis Awst 2021 ac maent yn anelu at tua 3.5 cylch y flwyddyn.

Maent yn prynu'r perchyll Landrace gwyn gan Pilgrims UK, un o'r cwmnïau pecynnu cig mwyaf yn y byd, a hefyd ar ôl pesgi'r moch fe'u gwerthir iddynt ar gontract.

Mae'r moch wedi'u hardystio i safon y Tractor Coch a Freedom Foods. **"Cawsom gymorth gan Menter Moch Cymru i wneud yr archwiliadau, oedd yn ddefnyddiol iawn,"** meddai Aled. **"Roeddent hefyd yn cynnig canllawiau gan roi cyngor ar brotocolau fel dipio traed."**

Roedd cefnogaeth hefyd i lunio cynllun iechyd ar gyfer y genfaint. Drwy'r cynllun hwn gan Fenter Moch Cymru, llwyddodd y teulu Thomas i gael gafael ar 100% o gyllid tuag at gynllun iechyd cychwynnol y genfaint, ac yna cefnogaeth bellach i gynnal adolygiad yn y blynyddoedd yn dilyn.

Dywed Aled fod y pecyn cymorth wedi gwneud byd o wahaniaeth - rhwng bod y teulu'n dechrau'r busnes newydd, ai peidio.

**"Un o'r pethau mwyaf gwerthfawr yw'r cysylltiadau, rwy'n credu nad yw pobl yn sylweddoli gwerth cael cysylltiadau i helpu busnes yn gyffredinol.**

Mae Aled yn rhannu ei amser rhwng y busnes a'i swydd yn Llundain lle mae'n ysgrifennu adroddiadau ar y farchnad reis fyd-eang yn ogystal â'i benodiad newydd fel cynghorydd sir.

**"Pe na fyddem wedi arallgyfeirio i gadw moch, byddwn o bosibl yn byw ac yn gweithio'n llawn amser yn Llundain ac efallai wedi colli diddordeb mewn amaethyddiaeth, ond yn hytrach gallaf wneud bywoliaeth o ffermio."**